Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gwynfryn

**Heol y Meinciau**
**Pont-iets**
**Llanelli**
**Caerfyrddin**
**SA15 5SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gwynfryn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gwynfryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 45 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 12.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 37.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'i dîm rheoli yn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr ysgol trwy greu cymuned ofalgar. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos mwynhad yn eu gwersi. Trwy gydweithio agos ar draws ysgolion y ffederasiwn, a thrwy'r gofal a gynigir i'r disgyblion, mae'r holl staff yn ymgorffori arwyddair y ffederasiwn, sef 'law yn llaw y daw llwyddiant'.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n bachu dychymyg disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r ystod eang o brofiadau a ddarperir ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol yn hybu eu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn siarad a darllen yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso medrau ysgrifennu yn llwyddiannus gyda chymorth fframweithiau parod, a'r mwyafrif yn ysgrifennu'n rhydd yn addas pan gânt y cyfle. Er bod llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau yn addas, nid yw'r disgyblion hynaf yn datblygu ystod lawn o fedrau rhifedd gwahanol, ac nid yw lefel yr her bob tro'n ddigon uchel ar eu cyfer. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu adborth defnyddiol i ddisgyblion, gan gynnwys cyfleoedd i gywiro gwaith. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfoethogi cynnwys eu gwaith yn dilyn adborth.

Mae Ysgol Gwynfryn wedi ei ffedereiddio ag Ysgol Carwe ac Ysgol Ponthenri. Golyga hyn fod yr ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol a bod y pennaeth yn rhannu ei amser ar draws y tri safle. Mae'r staff yn cydweithio'n agos iawn â chydweithwyr yn yr ysgolion eraill er mwyn cynllunio a darparu profiadau cyson ar gyfer y disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Er hyn, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwella bob tro'n ddigon miniog i fynd i'r afael â phob maes i'w wella.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith

A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer ysgolion y ffederasiwn sydd wedi ei selio ar ddarparu profiadau cyson ar gyfer y disgyblion mewn cymuned ofalgar. Caiff ei gefnogi’n frwd gan uwch dîm o reolwyr sy’n cynnwys pennaeth cynorthwyol ar safle bob ysgol.

Mae'r berthynas waith gynhaliol sy’n bodoli rhwng disgyblion a staff yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae staff yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol ac mae’r disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith a themâu’r dosbarth. Mae disgyblion ar draws y tair ysgol yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau gwaith thema. O ganlyniad i’r cyfleoedd hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perchnogi’r cwricwlwm ac yn ymfalchïo yn eu dysgu.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu sy’n hybu’r dysgu yn briodol. Mae amcanion bwriadus i’r dysgu ac mae athrawon yn sicrhau bod cyflymder priodol i weithgareddau. Maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi sy’n adalw dysgu blaenorol, cadarnhau dealltwriaeth a llywio cyfeiriad y dysgu yn llwyddiannus. Mae staff yn cynnig adborth pwrpasol sy’n cefnogi’r disgyblion i gywiro gwallau cyffredinol yn eu gwaith. Er hyn, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion wella a mireinio cynnwys eu gwaith yn sgil adborth.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynnig cyfleoedd buddiol i’r disgyblion weithio ar eu tasgau mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau’r disgyblion wrth iddynt gydweithio i drafod a datblygu eu syniadau. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn annog y disgyblion i weithio’n annibynnol yn grefftus.

**Ciplun: Ysgogi’r disgyblion ieuengaf gyda gweithgareddau dysgu annibynnol**

Mae athrawon yn cydweithio’n effeithiol ar draws y ffederasiwn er mwyn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol. Maent yn defnyddio sbardun sy’n cyffroi’r disgyblion, fel helynt y Dyn Bach Sinsir. Gwneir defnydd hynod effeithiol o ardaloedd gwahanol y dosbarth, gydag ystod eang o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ysgrifennu’n rhydd, gydag ychydig o’r disgyblion mwyaf hyderus yn dechrau ysgrifennu darnau estynedig yn y ‘llyfr sgribl’. Maent yn gwneud dewisiadau ynghylch eu dysgu, gan benderfynu pa weithgareddau i flaenoriaethu a dewis gweithio’n unigol neu gyda chyfeillion. Mae disgyblion yn ymgolli’n llwyr yn y gweithgareddau ac yn dyfalbarhau am gyfnodau

estynedig. O ganlyniad, mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol yn effeithiol.

Mae athrawon yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn bwrpasol wrth wahodd ymwelwyr i'r ysgol a threfnu ymweliadau addysgol lleol. Maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd, amrywiaeth a pherthnasoedd.

Mae holl staff yr ysgol yn defnyddio iaith lafar raenus ac yn annog disgyblion i ddefnyddio geirfa a phatrymau cywir yn gyson. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau siarad a gwrando mewn cyd-destunau gwahanol yn fwriadus. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i sesiynau ymarfer iaith bachog ac yn cydweithio â'u cyfoedion i greu fideos sgrin werdd. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio'r dafodiaith leol a geirfa snhwyrol gan ddangos balchder yn eu dwyieithrwydd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen a mwynhad o ddarllen. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu hadnabyddiaeth gychwynnol o lythrennau yn briodol, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn fwy hyderus i ddarllen straeon sy'n gynyddol estynedig.

Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau modur mân yn llwyddiannus trwy weithgareddau ysgogol yn ardaloedd gwahanol y dosbarth a thu allan. Mae hyn, yn ei dro, yn eu galluogi i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol trwy arbrofi â gwneud marciau a dechrau ysgrifennu geiriau a brawddegau rhydd. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gafael cadarn o batrymau sillafu, atalnodi a threiglo yn eu gwaith ysgrifenedig. Gyda chymorth fframweithiau, maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod eang o ffurfiau. Pan gânt y cyfle, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu darnau estynedig annibynnol yn briodol.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd dros amser. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn adio rhifau dau ddigid yn fedrus. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn dros amser ac, erbyn brig yr ysgol, maent yn datrys problemau'n bwrpasol gan ddewis o ystod o ddulliau. Ar frig yr ysgol, er bod ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhif, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau algebra, geometreg a'u defnydd o ddata ac ystadegau. Ar y cyfan, nid yw'r gweithgareddau rhifedd yn cynnig digon o her i ychydig o'r disgyblion hynaf yn ddigon effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau digidol dros amser. Trwy ymgysylltu â phrosiectau penodol gyda chefnogaeth darparwyr allanol, mae disgyblion yn dechrau datblygu ystod fwy cyflawn o fedrau creadigol yn briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae ffocws yr ysgol ar gefnogi lles disgyblion yn gryfder amlwg ac yn eu cynorthwyo i ddeall eu hemosiynau a'u perthnasoedd yn drwyadl. Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn cydweithio er mwyn adnabod anghenion unigol disgyblion yn gynnar a threfnu cefnogaeth addas. Mae cynlluniau dysgu unigol yn amlinellu'n

glir anghenion dysgu'r disgyblion sy'n cyfrannu at allu'r athrawon i gefnogi, gwahaniaethu, a chynllunio'n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae arweinwyr yn trefnu amser rheolaidd i athrawon cyd-gynllunio â chyfoedion ar draws ysgolion y ffederasiwn ac i graffu ar waith ar y cyd. O ganlyniad, mae ysgolion y ffederasiwn yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn briodol. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau mynegiannol ac wedi cynllunio'n fwriadus i gyfoethogi profiadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt yn ddigon clir bob tro rhwng deilliannau gweithgareddau hunanwerthuso a'r prosesau gwella ansawdd. Er enghraifft, nid yw'r camau gweithredu sy'n deillio o weithgareddau monitro bob tro'n arwain at welliannau. Yn ogystal, nid yw arweinwyr wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig sydd angen eu datblygu ymhellach, fel datblygu medrau rhifedd disgyblion hynaf yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi gwaith yr ysgol yn addas. Maent yn manteisio ar gyfleoedd achlysurol i ymweld â'r ysgol i gyfrannu at y prosesau hunanwerthuso. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/01/2025